OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2823 (Cy.246)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*25 Hydref 2006*
Yn dod i rym	- -	*26 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 134(5)(a) ac (c) a (6) o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004.

Eithriadau rhagnodedig

3. At ddibenion adran 134(1)(b) o'r Ddeddf mae annedd yn dod o dan eithriad rhagnodedig —

(a) os yw wedi bod yn feddianedig yn unig neu'n bennaf gan y perchennog perthnasol a'i bod yn gyfan gwbl anfeddianedig am fod y perchennog perthnasol(**2**) —

(i) yn preswylio yn rhywle arall dros dro;

(ii) yn absennol o'r annedd er mwyn iddo gael gofal personol oherwydd henaint, anabledd, afiechyd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffur yn y gorffennol neu'r presennol neu anhwylder meddyliol yn y gorffennol neu'r presennol;

(iii) yn absennol o'r annedd er mwyn darparu gofal personol, neu ei ddarparu'n well, i berson y mae arno angen y gofal hwnnw oherwydd henaint, anabledd, afiechyd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffur yn y gorffennol neu'r presennol neu anhwylder meddyliol yn y gorffennol neu'r presennol; neu

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pŵer a roddir gan adran 134(5)(a) ac (c) a (6) yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1) o'r Ddeddf.

(**2**) I gael ystyr "*relevant proprietor*" gweler adran 132 (4)(c) o'r Ddeddf.

(iv) yn aelod o'r lluoedd arfog sydd ar wasanaeth ac yn absennol o'r annedd o ganlyniad i wasanaeth o'r fath.

(b) os yw'n cael ei defnyddio fel cartref gwyliau (p'un a yw'n cael ei gosod fel cartref o'r fath ar sail fasnachol) neu os yw wedi'i meddiannu fel arall gan y perchennog perthnasol neu westeion y perchennog perthnasol ar sail dros dro o bryd i'w gilydd;

(c) os yw'n wirioneddol ar y farchnad i'w gwerthu neu i'w gosod;

(ch) os yw wedi'i chynnwys mewn daliad amaethyddol o fewn ystyr "*agricultural holding*" yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986(**3**) neu'n denantiaeth busnes fferm o fewn ystyr "*farm business tenancy*" yn Neddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995(**4**);

(d) os yw wedi'i meddiannu fel arfer gan un o gyflogeion y perchennog perthnasol mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau'r cyflogai o dan delerau contract cyflogi'r cyflogai;

(dd) os yw ar gael i'w meddiannu gan weinidog crefydd fel preswylfa i gyflawni dyletswyddau swydd gweinidog crefydd ohoni;

(e) os yw'n ddarostyngedig i orchymyn llys yn rhewi eiddo'r perchennog perthnasol;

(f) os yw'n cael ei atal rhag cael ei meddiannu o ganlyniad i ymchwiliad troseddol neu achos troseddol;

(ff) os yw wedi'i morgeisio, pan fo'r morgeisai, yn hawl y morgais, wedi cymryd meddiant o'r annedd a bod yr annedd yn ei feddiant; neu

(g) os yw'r person a oedd yn berchennog perthnasol arno wedi marw a bod chwe mis heb fynd heibio ers cael grant cynrychiolaeth ar ei gyfer.

Gofynion rhagnodedig

4.—(1) At ddibenion adran 134(2)(e) o'r Ddeddf mae'r gofynion rhagnodedig y mae'n rhaid i awdurdod tai lleol gydymffurfio â hwy fel a ganlyn —

(a) bod rhaid iddo wneud ymdrech resymol i gael cadarnhad gan y perchennog perthnasol a yw hwnnw'n credu bod unrhyw un o'r eithriadau a gynhwysir yn erthygl 3 yn gymwys i'r annedd;

(b) bod rhaid iddo roi i'r tribiwnlys eiddo preswyl —

(i) manylion am yr ymdrech y mae wedi'i gwneud i hysbysu'r perchennog perthnasol ei fod yn ystyried gwneud gorchymyn rheoli anheddau gwag interim ar gyfer annedd y perchennog perthnasol, fel sy'n ofynnol o dan adran 133(3)(a) o'r Ddeddf;

(ii) manylion am yr ymholiadau y maent wedi'u gwneud i ganfod pa gamau (os o gwbl) y mae'r perchennog perthnasol yn eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod yr annedd yn cael ei meddiannu, fel sy'n ofynnol o dan adran 133(3)(b) o'r Ddeddf;

(iii) manylion am unrhyw gyngor a chymorth y maent wedi'u rhoi i'r perchennog perthnasol gyda'r bwriad bod y perchennog perthnasol yn sicrhau bod yr annedd yn cael ei meddiannu;

(iv) yr holl wybodaeth sydd ganddynt sy'n awgrymu y gall yr annedd ddod o dan un o'r eithriadau a ddisgrifiwyd yn erthygl 3, p'un a ddaeth yr wybodaeth honno ar gael drwy ymholiadau'r awdurdod ei hun neu oherwydd sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y perchennog perthnasol; a

(v) dosbarthiad yr annedd at ddibenion treth gyngor o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**5**); ac

(**3**) 1986 p.5
(**4**) 1995 p.8
(**5**) 1992 p.14